Adroddiad ar gyfer	Y Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	22 Chwefror 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Bobby Feeley / y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts / Ann Lloyd / Rhiain Morrlle
Awdur yr adroddiad	Ann Lloyd
Teitl	Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB) Rhanbarth Gogledd Cymru 2022, yn ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru).

1.2. Cyhoeddwyd yr Asesiad cyntaf o Anghenion y Boblogaeth yn 2017 ac mae wedi ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y ddogfen newydd hon.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Y mae angen gwneud penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Rhanbarth Gogledd Cymru.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Y mae AAB Gogledd Cymru (Atodiad 1) yn waith ar y cyd gan y chwe Awdurdod Lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nod yr AAB yw ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r boblogaeth ledled gogledd Cymru a sut y bydd anghenion y boblogaeth yn addasu ac yn newid dros y blynyddoedd nesaf.

4.2. Bydd yr AAB yn:- nodi anghenion gofal a chymorth ledled gogledd Cymru; yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael i fodloni'r anghenion hynny; ac yn nodi unrhyw fylchau / anghenion nas diwallwyd a'r camau i'w cymryd.

4.3. Nid yw ychydig o'r data a ddefnyddiwyd i roi gwybodaeth i'r AAB bellach yn gyfoes, e.e. defnyddiwyd data o Gyfrifiad 2011 gan na fydd data 2021 wedi ei gyhoeddi mewn pryd i fodloni'r amserlen a roddir gan Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r AAB Rhanbarthol. Bydd yr AAB yn cael ei ddiweddaru â'r data perthnasol fel daw'r data ar gael dros gylchred 5 mlynedd yr AAB.

4.4. Yr asesiad yw'r sail y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud penderfyniadau i gynllunio a chomisiynu ar gyfer anghenion gofal a chymorth at y dyfodol. Mae hefyd wedi ei fwriadu i ddylanwadu ar brosesau penderfynu lleol, gan gynnwys cynlluniau gwelliant corfforaethol a datblygu strategaethau a chynlluniau.

4.5. Rhannwyd yr AAB Rhanbarthol i benodau thematig sy'n cynnwys:- Plant a Phobl Ifan; Pobl Hŷn; Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau; Anabledd Dysgu; Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig; Iechyd Meddwl; a Gofalwyr Di-dâl. Yn ychwanegol, mae grwpiau eraill wedi eu cynnwys megis ffoaduriaid, cyn-filwyr y lluoedd arfog, a phobl ddigartref.

4.6. Y mae blaenoriaethau Sir Ddinbych wedi eu hatodi yn Atodiad 2. Cynhwysir y blaenoriaethau yn fersiwn terfynol yr AAB, ynghyd â dogfen debyg ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Lleol a BIPBC.

4.7. Beth sy'n digwydd nesaf? Defnyddir yr AAB i roi gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, sydd i fod i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2022. Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn asesu sefydlogrwydd a digonolrwydd y farchnad gofal cymdeithasol yng ngoleuni'r darganfyddiadau a'r anghenion a nodir yn yr asesiad hwn.

4.8. Yn rhedeg yn gyfochrog â'r AAB Rhanbarthol y mae datblygiad Asesiad Lles Gogledd Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gogledd Cymru ym mis Mai 2022. Gwnaed cysylltiadau â'r BGC lle nodwyd tebygrwydd o ran blaenoriaethau a themâu ledled y Rhanbarth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r AAB yn cefnogi'r Egwyddorion Corfforaethol canlynol:-

- Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion;
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid;
- Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a chanddynt y sgiliau i wneud hynny.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru yn ariannu Rheolwr Prosiect Rhanbarthol i gefnogi'r prosiect a chostau cysylltiedig gan gynnwys cyfieithu ac ymgysylltu arbenigol.

6.2. Bydd raid ariannu comisiynu bylchau / anghenion nas diwallwyd yn y farchnad gofal cymdeithasol yn y dyfodol naill ai drwy gyllid grant neu o gyllidebau gofal cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr AAB Rhanbarthol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Datblygwyd yr AAB Rhanbarthol drwy ymgysylltiad, gyda gwaith ymgynghori ac ymgysylltu rhanbarthol ar raddfa fawr wedi ei wneud. Ceir crynodeb o ganlyniadau'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ym mhob un o'r prif benodau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi ariannu prosiect rhanbarthol sydd yn cynnwys 2 reolwr prosiect rhanbarthol i gefnogi datblygu'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Cafodd costau cysylltiedig, megis cyfieithu ac ymgysylltu arbenigol ei ariannu gan y bartneriaeth hefyd.

9.2 Bu yna gost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith yma ar gyfer yr asesiad o anghenion y boblogaeth rhwng mis Ebrill 2021 a mis Rhagfyr 2021.

9.3 Wrth symud ymlaen, bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol. Efallai y bydd y blaenoriaethau yma angen rhyw lefel o fuddsoddiad naill ai ar lefel ranbarthol neu lefel leol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg o gyhoeddi'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2. Adran 7.4.2 (b) yng Nghyfansoddiad y Cyngor.